Ymddiriedolaeth Cwm Elan

Elan Valley Trust

## Gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr:

**Rydym yn chwilio am hyd at dri chyfarwyddwr ar gyfer yr ymddiriedolaeth i gynorthwyo llywio gwaith Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Bydd y cyfarwyddwyr newydd yn ymuno â'r Ymddiriedolaeth ar adeg bwysig, wrth i ni geisio fynd i'r afael â heriau natur coll a newid hinsawdd ar draws y dalgylch ddŵr allweddol, ac ardal a werthfawrogir am hamdden corfforol.**

**Ymddiriedolaeth Cwm Elan**

Lleolir Ystâd Gwm Elan a Chomin Cwmdeuddwr yng nghanol Mynyddoedd Cambria, gan orchuddio oddeutu un y cant o dir Cymru. Ffurfia'r Ystâd y dalgylch ddŵr ar gyfer Cronfeÿdd Cymoedd Elan a Chlaerwen sy'n darparu dŵr i Birmingham, rhannau o Orllewin Canolbarth Lloegr a Chymru. Tirlun o ucheldir anghysbell wedi'i rychwantu gan gymoedd coediog serth eu hochrau. Dynodir llawer o'r ardal am ei gwerth gadwriaeth natur.

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Cwm Elan ym 1989 gan Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) gyda'r bwriad o:
- gadw, cynnal a chyfoethogi Cwm Elan, ei thirwedd a'i bywyd gwyllt, er budd y cyhoedd;
- hyrwyddo ac annog mynediad at ac astudiaeth yng Nghwm Elan;
- darparu adnoddau ar gyfer hamdden gorfforol yng Nghwm Elan;
- hyrwyddo ac annog defnydd o Gwm Elan ar gyfer amcanion elusennol.

Wrth anelu at yr amcanion hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r Ystâd yn ôl egwyddorion tirwedd a chadwriaeth natur, gan gyd bwyso'r rhain yn ôl gofynion hygyrchedd, hamdden, addysg ac amcanion addysgol eraill.
Yn ymarferol, golyga hyn bod yr Ymddiriedolaeth:
- yn rheoli ac yn amaethu 2,800 hectar o dir mewn-llaw gan gynnwys rhai o'r lleoliadau allweddol ar gyfer cadwriaeth natur, megis y Warchodfa Natur Genedlaethol yng Nghlaerwen;
- yn dirfeddiannwr i ryw 28 o denantiaid ar draws 17,000 hectar;
- yn berchennog rhydd-ddeiliad ar Gomin Cwmdeuddwr;
- yn monitro cyflwr natur ar yr Ystâd ac yn cymryd camau i hyrwyddo cadwraeth natur;
- yn cyflawni nifer o brosiectau gan greu canlyniadau ar gyfer cadwraeth natur, ymrwymiad gyhoeddus ynghyd â gwirfoddoli;
- yn cynnal adnoddau ac isadeiledd hamdden megis pontydd, ffyrdd a llwybrau, a'u cadw mewn cyflwr da;
- yn rheoli nifer o adeiladau preswyl, lletyáu gwyliau, byncws, dau fothi yn ogystal â llety gwely a brecwast ac ystafell dê (a logir gan weithredwr drydydd parti ar hyn o bryd);
- yn cyflawni gweithgarwch adfer mawn ar draws yr Ystâd;
- yn cydweithio â DCWW i hyrwyddo Parc Rhyngwladol Wybren Dywyll Cwm Elan.

**Llywodraethiant**
Mae gan yr Ymddiriedolaeth un Ymddiriedwr corfforiaethol: Cwm Elan Cyf.

**Swydd-ddisgrifiad ar gyfer Cyfarwyddwyr Cwm Elan Cyf**.
Cymer Gyfarwyddwr gyfrifoldeb dros sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn ymddwyn yn unol â Dogfen yr Ymddiriedolaeth a chyfraith elusennol. Mae'r swydd yn strategol ei natur ac mae'r rhestr canlynol yn tanlinelli rhai o'r cyfrifoldebau allweddol ar gyfer Cyfarwyddwyr:

- Gosod a chynnal gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth yn unol â'n dogfennau llywodraethiant.
- Datblygu strategaeth hir dymor yr Ymddiriedolaeth a monitro twf tuag at ganlyniadau strategol.
- Sefydlu a monitro polisïau a gweithdrefnau'r mudiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyda dogfennau llywodraethiant ac amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth.
- Sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth â'r gyfraith.
- Cynnal goruchwyliaeth cyllidol gywir.
- Dewis, rheoli a chefnogi Rheolwr yr Ystâd i arwain gweithgarwch yr Ymddiriedolaeth.
- Gweithio fel rhan o dîm er mwyn hyrwyddo perfformiad effeithlon y Bwrdd.
- Hyrwyddo'r Ymddiriedolaeth drwy fod yn gennad a Chyfarwyddwr effeithiol.

Tymor y swydd: 5 mlynedd, gyda'r posibilrwydd o 5 mlynedd bellach trwy gydsyniad.
Amser gofynnol: Cynhelir cyfarfodydd o'r Bwrdd yn chwarterol, ac maent fel arfer yn parhau gydol y dydd. Cynhelir cyfarfodydd is-bwyllgor a chyfarfodydd achlysurol yn ôl y gofyn. Yn flynyddol, cynhelir un 'Taith Gyfarwyddwr', sy'n gyfle i gael golwg mwy manwl ar feysydd o ddiddordeb un a'i ar yr Ystâd neu y tu hwnt iddi. Darperir cyfleusterau ar gyfer ymuno â chyfarfodydd dros gyswllt fideo.

Ad-dalu: Mae'r swydd yn un wirfoddol, serch hynny gellir ad-dalu treuliau.

**Pa sgiliau a phrofiad sy'n ofynnol ar gyfer Cyfarwyddwr Ystâd Cwm Elan?**
Gan fod ein gwaith yn eang, mae gan Gyfarwyddwyr newydd ddealltwriaeth manwl o rai agweddau ynghyd â brwdfrydedd i ddatblygu dealltwriaeth o feysydd eraill er mwyn galluogi gwneud dewisiadau gwybodus, cytbwys, strategol.

Bydd gan ein Cyfarwyddwyr newydd wybodaeth manwl ynghylch o leiaf un o'r canlynol:
- Cadwraeth natur
- Hamdden a hygyrchedd
- Gwerth uchel natur ffermio'r ucheldir
- Ein cymuned leol
- Rheolaeth ystâd wledig
- Treftadaeth adeiladaeth a diwylliannol

- Rheolaeth cyllid
- Llywodraethiant elusennau
- Llinariad a hydwythedd hinsawdd
- Cyllido grantiau a phrosiectau

Bydd ein Cyfarwyddwyr newydd yn meddu ar:
- Ymroddiad cryf at genhadaeth yr Ymddiriedolaeth; dealltwriaeth o'n hamcanion a'n bwriadau; ynghyd â gwerthoedd sy'n unol â hynny.
- Sgiliau cyfathrebu a gwrando ardderchog
- Sgiliau teg, rhesymol a chytbwys wrth wneud penderfyniadau
- Yr hyder i herio a chefnogi'n gadarnhaol
- Amser i ymroi at y swydd (gan gynnwys yr amser i baratoi ac ymrwymiad at gyfarfodydd)
- Ymroddiad at weithio ar y cyd gyda Chyfarwyddwyr eraill a'r staff uwch fel rhan o'r tîm arwain strategol.

**Sut i ymgeisio**

Danfonwch CV ynghyd â llythyr eglurhaol yn amlinellu eich sgiliau, profiad ac addasrwydd ar gyfer y swydd at recruitment@elanvalley.org.uk erbyn y 30ain o Fedi 2025.
Sylwch y bydd datganiad gwaharddiad awtomatig y Comisiwn Elusennol yn ofynnol, felly adolygwch hwn os gwelwch yn dda cyn gyflwyno eich cais; gellir dod o hyd iddo yma: https://tinyurl.com/y23eurdj

Gwahoddir ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer ddiwrnod agored er mwyn gweld ein gwaith. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yna'n cael eu dewis trwy gyfweliad. Ceir gwybodaeth gyffredinol ynghylch yr Ymddiriedolaeth a Chwm Elan ar http://www.elanvalley.org.uk/ a'r cyswllt at ein cynllun strategol cyfredol ar https://tinyurl.com/y5tjnrcc